



David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Y Cynulliad Cenedlaethol

SeneddMADY@cynulliad.cymru

22 Awst 2019

Annwyl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Gorffennaf ynglŷn â pharodrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Brexit, yn enwedig y cynlluniau wrth gefn ar gyfer y sector defaid.

Mae'n neges ni'n glir erioed; byddai gadael yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb yn drychinebus i'n diwydiant amaeth a'n cymunedau gwledig. Byddai'n hynod niweidiol a rhaid osgoi hynny ar bob cyfrif. Nid Brexit 'heb gytundeb' oedd pobl eisiau wrth bleidleisio i adael yr UE, a chyfrifoldeb llywodraeth y DU yw sicrhau nad yw hynny'n digwydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cryn dipyn o waith wrth baratoi ar gyfer Brexit – gan gynnwys gweithio ar gynllun wrth gefn i'r sector defaid sy'n canolbwyntio ar y posibilrwydd o adael yr UE heb gytundeb.

Rwyf wedi ymgysylltu'n ofalus â rhanddeiliaid trwy'r Grŵp Bord Gron Rhanddeiliaid er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i arweinwyr diwydiant am y camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynllunio ar gyfer senario 'dim cytundeb'. Hefyd, mae fy swyddogion wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd â chynrychiolwyr allweddol y diwydiant, i drafod materion, rhannu ein syniadau diweddaraf a chael adborth ar y cynigion.

Yn dilyn y penderfyniad i estyn Erthygl 50 i 31 Hydref 2019, mae fy swyddogion wedi parhau i gydweithio â llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill er mwyn asesu hyd a lled yr effaith ar ein diwydiannau amaeth. Mae'n amlwg y bydd y sector defaid yn arbennig o agored i niwed yn sgil gadael 'heb gytundeb', gyda thua 35% o ŵyn Cymru'n cael eu hallforio ar hyn o bryd – 95% ohonyn nhw i'r UE – sy'n werth £94 miliwn y flwyddyn.

Mae Gweinidogion pedair llywodraeth y DU wedi cytuno i ddatblygu cynllun y DU (wedi'i gyflwyno ar wahân gan bob gweinyddiaeth) ar gyfer y sector defaid er mwyn sicrhau cysondeb, oherwydd natur gysylltiedig y marchnadoedd a'r gadwyn gyflenwi.

Ers estyn Erthygl 50, mae fy swyddogion wedi adolygu'r dadansoddiad o effaith gadael 'heb gytundeb' ar sail gadael yn ystod hydref 2019. Mae'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant ym mis Hydref yn sylweddol wahanol i rai mis Ebrill, gyda'r dyddiad gadael newydd yn digwydd yn ystod cyfnod gwerthu allweddol pan mae ŵyn ysgafn (sy'n cael eu hallforio'n gyffredinol i'r UE) yn dod i'r farchnad. Hefyd, byddai'n digwydd ychydig ar ôl cyfnod pwysig y seli bridio, a phan fydd ffermwyr eisoes wedi gwneud penderfyniadau bridio ar gyfer y gwanwyn canlynol.

Mae fy ngweinidogion wedi datblygu cyfres o fesurau ar ben y cymorth ariannol. Tra gallwn ni symud yr adnoddau sydd ar gael er mwyn helpu i leddfu'r ergyd a lleihau'r problemau tymor byr, ni fydd hynny'n cael gwared ar effaith 'dim gytundeb' a fydd yn para am y tymor canolig a'r tymor hir.

Pwyslais y mesurau hyn yw helpu busnesau i ymdrin â'r pwysau uniongyrchol ac ymateb i'r cyfleoedd yn sgil gadael yr UE. Byddwn yn cyflawni hyn trwy becyn cymorth integredig sy'n cysylltu'n agos â'r cymorth ehangach a gynigir i holl fusnesau Cymru. Dyma grynodeb isod:

1. Taliadau argyfwng

Yr opsiwn cymorth ariannol uniongyrchol a ffefrir, y cytunwyd arno gan holl Weinidogion y Grŵp Rhyngweinidogol EFRA, yw cynllun taliad y pen DU gyfan ar gyfer defaid bridio. Byddai'r cynllun yn targedu cynhyrchwyr sy'n debygol o ddioddef (neu wedi dioddef) prisiau isel yn 2019, neu wedi gwneud penderfyniadau cynhyrchu ar gyfer 2020 cyn i Brydain adael yr UE. Byddai talu iawndal i ffermwyr am rywfaint o golledion y farchnad yn rhoi cymorth rhannol i hyfywedd busnesau, ac yn eu helpu i ailasesu eu cynlluniau tymor hirach.

Byddai'r mesur hwn yn cael ei gyflwyno dan Erthygl 2019 rheoliad CMO yr UE, ac yn cael ei weinyddu a'i sbarduno gan bob Gweinyddiaeth yn dilyn cwmp sylweddol ym mhrisiau defaid ar ôl gadael 'heb gytundeb'.

Mae cyflenwi unrhyw daliad argyfwng yn dibynnu ar gyllid gan Drysorlys EM. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau eraill er mwyn cyflwyno cais cydlynol am gyllid y Trysorlys.

2. Grŵp Monitro'r Farchnad

Mae Grŵp Monitro Marchnad Amaethyddol y DU (UKAMMG) wrthi'n cael ei sefydlu rhwng llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau eraill er mwyn cydlynu dadansoddiad o wybodaeth y farchnad gan y llywodraeth, y diwydiant a ffynonellau eraill. Bydd y grŵp yn monitro'r datblygiadau yn y prif ddiwydiant amaethyddol ac yn ystyried ymatebion i ddatblygiadau andwyol y farchnad, gan ddarparu argymhellion os oes angen ymyrryd yn y mater.

3. Cynllun cymorth ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS)

Cyhoeddais gynllun cymorth newydd ar gyfer hyd at 90% o werth hawlio BPS 2019 arfaethedig. Mae'n dilyn cynllun tebyg yn sgil haf sych 2018. Byddai cynllun cymorth BPS yn helpu ffermwyr i daclo problemau llif arian sy'n deillio o adael yr UE heb gytundeb.

4. Cyswllt Ffermio

Mae mesurau cymorth cyfredol ar gael i'r holl sectorau amaethyddol, gan gynnwys hyfforddiant a throsglwyddo gwybodaeth parhaus er mwyn cynorthwyo gyda chadernid ac elw busnesau trwy Cyswllt Ffermio. Bydd y mesurau cymorth hyn yn cael eu haddasu a'u blaenoriaethu os byddwn yn gadael heb gytundeb.

5. Meincnodi Cig Coch

Roedd prosiect Meincnodi Cig Coch 2018/19, a ariannwyd trwy Gronfa Bontio'r UE yn helpu ffermwyr sy'n rhan o'r prosiect i gael asesiad pwrpasol o berfformiad o'u fferm. Roedd hefyd yn galluogi ffermwyr i werthuso eu busnes o gymharu â'u cyfoedion, a dealltwriaeth well o'u perfformiad ariannol a thechnegol. Hefyd, trefnwyd cymorthfeydd unigol gan Cyswllt Ffermio i drafod a dadansoddi eu canlyniadau unigol gydag ymgynghorwyr amaethyddol.

Mae adroddiad lefel sector y diwydiant yn darparu data hanfodol am berfformiad a chostau cynhyrchu. Mae meincnodi yn erbyn ffermydd eraill yn gallu helpu busnesau i fod yn fwy cynaliadwy ac ymdopi'n well â chostau amrywiol cyfleustodau.

Mae cyllid pellach wedi'i ddyrannu o Gronfa Bontio'r UE er mwyn darparu rhagor o gymorth i ffermwyr dderbyn cynllun busnes ac adroddiad gweithredu wedi'u teilwra.

6. Y gadwyn gyflenwi / datblygu'r farchnad

Mae fy swyddogion yn cydweithio'n agos â Hybu Cig Cymru i fuddsoddi mewn Rhaglen Allforio Uwch er mwyn helpu diwydiant cig coch Cymru i gadw'r marchnadoedd allweddol yn Ewrop, yn ogystal â datblygu marchnadoedd pellach.

Mae angen gwella galw'r farchnad ddomestig am gig defaid, ac rydym wedi cynnal trafodaethau gyda chyrrff lefi, manwerthwyr, gwasanaethau a phroseswyr bwyd, gyda'r nod o ddenu rhagor o'r cyhoedd i brynu a bwyta cig coch.

7. Cymorth ac ymwybyddiaeth o iechyd meddwl

Rwy'n ymwybodol o effaith ddynol Brexit ar nifer o sectorau sy'n rhan o fy mhortffolio i. Mae ansicrwydd enbyd Brexit yn achosi straen meddyliol i sawl unigolyn.

Haf diwethaf, mewn ymateb i'r tywydd eithriadol o sych, cyhoeddais nawdd o £500,000 i dair elusen wledig, sy'n gweithredu ledled Cymru, er mwyn mynd i'r afael â'r problemau ariannol dybryd a'r effaith ar iechyd meddwl rhai ffermwyr yn y tymor byr. Cyhoeddwyd £500,000 ychwanegol gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddiweddar er mwyn datblygu'r gwaith cenedlaethol a rhanbarthol sy'n ofynnol i daclo achosion o hunanladdiad a hunan niweidio.

Hefyd, sefydlwyd Partneriaeth Elusennau i fod yn brif bwynt cyswllt ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r elusennau gwledig, er mwyn rhannu gwybodaeth ac arbenigedd, nodi ffyrdd o gydweithio a darparu safle cryf a chydlynol ar gymorth iechyd meddwl o fewn y sector amaeth yng Nghymru.

Yn ddiweddar hefyd, cyhoeddais £47,000 o gyllid i'r [DPJ Foundation](#), sy'n codi ymwybyddiaeth bwysig o broblemau iechyd meddwl.

Mae holl fentoriaid a staff rheng flaen Cyswllt Ffermio, yn ogystal â Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm Llywodraeth Cymru, wedi cael hyfforddiant ar adnabod arwyddion iechyd meddwl gwael a chyfeirio ffermwyr at gymorth perthnasol.

8. Agri Alert

Mewn sefyllfa “Dim Cytundeb”, byddwn yn defnyddio proses *Agri Alert* i gasglu gwybodaeth gan gynghorwyr medrus ar lawr gwlad – sut mae ffermwyr yn ymdopi; a oes angen mynd i’r afael ag unrhyw faterion lles anifeiliaid; pa gymorth ychwanegol dylid ei ddarparu er enghraifft. Byddai hyn yn parhau i lywio’r broses o gynllunio polisi a lleihau unrhyw broblemau sy’n codi.

Rwy’n cydnabod mai’r sector defaid fydd yn cael ei effeithio fwyaf gan adael yr UE, ac y gallai’r mesurau uchod gefnogi’r sectorau amaethyddol eraill hefyd. Bydd Llywodraeth Cymru’n parhau i fonitro’r holl sectorau amaethyddol trwy sefydlu UKAMMG a thargedu cymorth a buddsoddiad lle mae’r angen mwyaf.

Gobeithio bod y llythyr hwn yn rhoi sicrwydd i’r Pwyllgor ein bod ni fel Llywodraeth yn gwbl ymwybodol o’r problemau sy’n wynebu ein diwydiant amaeth. Waeth faint o gymorth rown ni i ffermwyr, does dim dwywaith y bydd penderfyniad Llywodraeth y DU i ganiatáu Brexit heb gytundeb yn cyflwyno difrod diangen i gymunedau gwledig Cymru a fydd yn effeithio arnynt am ddegawdau. Yn y cyfamser, rydyn ni’n gweithio’n galed gyda rhanddeiliaid a phartneriaid cyflwyno (gan gynnwys Llywodraeth y DU) er mwyn sicrhau bod mesurau lliniaru ar waith ar gyfer risgiau hysbys, a’n bod ni’n gallu ymateb yn briodol i’r heriau sy’n wynebu’r sector defaid. Yn dilyn y posibilrwydd o adael yr UE heb gytundeb, bydd UKAMMG yn cadw llygad barcud ar yr holl sectorau amaethyddol, gan roi penderfyniadau gwybodus er mwyn cynghori ar y camau posib nesaf a’r amserlenni.

Rwyf wedi anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Cofion



Lesley Griffiths AC

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig